



Ein cyf/Our ref MA-(P) CG/0824/19

David Rees AC,
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
David.Rees@assembly.wales

01 Mawrth 2019

Annwyl David,

Diolch ichi am eich llythyr ynglŷn â chraffu ar Fframweithiau Cyffredin y DU. I ddechrau, hoffwn ailgadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i dryloywder o ran Fframweithiau Cyffredin - o safbwynt eu datblygu yn ogystal â'u rhoi ar waith yn y dyfodol - a rôl allweddol y craffu gan Bwyllgorau'r Cynulliad.

Fel y trafodwyd o'r blaen, mae rhaglen y Fframweithiau Cyffredin yn gweithredu yn ôl amserlen fwy hirdymor na llawer o'r gweithgarwch arall sy'n gysylltiedig â Brexit. Mae'r rhain yn strwythurau a threfniadau y byddai gofyn iddynt fod wedi cael eu sefydlu erbyn diwedd y cyfnod pontio. Mae'n siomedig a dweud y lleiaf ein bod, hyd yn oed mor hwyr â hyn, yn dal yn gorfod gwneud paratoadau at ddim cytundeb oherwydd yr ansicrwydd parhaus yn San Steffan. Mae hyn wedi cael effaith ar yr adnoddau sydd ar gael ar draws yr holl lywodraethau, ac ar yr amserlenni ar gyfer datblygu Fframweithiau Cyffredin.

Mewn llawer o feysydd polisi, rydym yn dod at ddiwedd y cam presennol o ddatblygu Fframweithiau Cyffredin, gan lunio cytundebau amlinellol cyffredinol sydd wedi'u datblygu ar y cyd rhwng y Gweinyddiaethau. Y cam nesaf fydd ymgysylltu y tu allan i'r Gweinyddiaethau i helpu i ddatblygu'r cytundebau amlinellol hyn yn elfennau, megis memoranda cyd-ddealltwriaeth, a fydd yn gweithredu fel Fframwaith Cyffredin.

Rydym yn parhau i wneud cynnydd da ar y 24 maes blaenoriaeth o ran fframweithiau, ac yn obeithiol y bydd rhai o'r cynlluniau amlinellol hyn yn cael eu cwblhau yn y dyfodol agos fel bod modd ymgysylltu â rhanddeiliaid. Yn naturiol, mae'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau Ewropeaidd) yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar gynllunio at Ddim Cytundeb.

Lluniodd Llywodraeth y DU ddadansoddiad dros dro o holl feysydd polisi'r Fframweithiau Cyffredin ym mis Mawrth 2018. Roedd y dadansoddiad hwn wedi'i seilio ar drafodaethau cychwynnol, ond cafodd ei lunio gan Lywodraeth y DU yn unig. Mae'r llywodraethau wrthi, ar y cyd, yn datblygu dadansoddiad mwy diweddar a fydd yn cael ei gyhoeddi fel offeryn a fydd yn destun craffu a rhagor o ymgysylltu. Ei ddiben fydd rhoi manylion am yr holl feysydd

polisi sy'n flaenoriaeth, a nodi hefyd ein dull gweithredu arfaethedig ar gyfer y meysydd eraill dros gyfnod pellach.

Er gwaethaf y pwysau ar adnoddau, mae'r broses rynglywodraethol ar gyfer datblygu'r Fframweithiau wedi bod yn effeithiol, ar y cyfan, hyd yma. Unwaith y cytunir ar unrhyw Fframweithiau unigol, bydd gofyn iddynt gael eu rhoi ar waith mewn ffordd sy'n ystyried cynnwys a natur y Fframwaith penodol hwnnw. Fodd bynnag, bydd yr adolygiad presennol o'r peirianwaith ar gyfer cydweithredu rhynglywodraethol yn defnyddio'r prosesau a ddefnyddiwyd hyd yma er mwyn sefydlu mecanweithiau a all weithio'n dda ar gyfer y math o broses benderfynu amlochrog y bydd gofyn ei chael ar gyfer y Fframweithiau, ac a all ddarparu sail ar gyfer craffu ar benderfyniadau. O'r dechrau'n deg, rydym wedi pwysleisio'r angen i gynnwys mecanweithiau adrodd a chyfleoedd craffu yn y strwythurau hyn. Bydd gofyn ystyried yn fanwl sut y bydd y broses graffu hon yn cael ei chynnal rhwng y gwahanol ddeddfwrfeydd, a'r angen posibl am strwythurau rhyngseneddol newydd i adlewyrchu'r rhai a geir rhwng Gweinyddiaethau.

Byddaf yn codi'r mater o graffu seneddol priodol yng nghyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor Gweinidogol a byddwn yn hapus i ysgrifennu eto at y Pwyllgor.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'Jeremy Miles'.

Jeremy Miles AC

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister